**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2011**

**PERFFORMIAD CYLLIDOL 2010-2011**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2010-11.

## Cyflwyniad

2 Yn y gorffennol, byddai'r Aelodau wedi derbyn Datganiad o Gyfrifol Drafft am gymeradwyaeth yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Awdurdod Tân ac Achub. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau deddfwriaethol, rhaid cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i'r Aelodau am gymeradwyaeth erbyn 30 Medi erbyn hyn.

3 Oherwydd y newidiadau uchod ym mis Mehefin 2010, cyflwynwyd adroddiad ar weithgaredd ariannol y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Aelodau, yn hytrach na'r Datganiad o Gyfrifon 'technegol'. Mae'r adroddiad yma'n un tebyg i'r llynedd ac yn sicrhau fod yr Aelodau'n ymwybodol o safle ariannol cyfredol yr Awdurdod.

4 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu'r gwariant refeniw ar gyfer 2010-11 yn erbyn y gyllideb gyda'r dadansoddiad ariannol wedi ei gynnwys yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn gwneud sylwadau ar Gronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod, mae'r darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig yn cael eu manylu yn Atodiad B. Mae rhan nesaf yr adroddiad yn edrych ar y cynlluniau ariannwyd gan grant gyda dadansoddiad manwl o gynlluniau yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod gweithgaredd cyfalaf ar gyfer y flwyddyn a gellir gweld manylion yn Atodiad D.

## Gweithgaredd Refeniw

5 Fel y gellir gweld o'r graff, mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gysylltiedig â chyflog; 73% ar gyfer 2010-11. Yn gyffredinol, roedd y gyllideb gyflog net wedi ei thanwario o £241k sydd ychydig yn uwch na'r amcangyfrif a ddarparwyd i Aelodau oherwydd cymerwyd ymagwedd ddarbodus at adrodd amcangyfrifon alldro ar gyfer ffioedd digwyddiad er mwyn cynnwys unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol.

6 Mae'r gyllideb pensiynau wedi ei gorwario oherwydd rhai ymddeoliadau oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, nid oedd y rhain wedi ffurfio rhan o'r amcan gyfrifiad gwreiddiol ac nid ydynt yn cael eu hariannu drwy'r cyfrif pensiynau.

7 Mae'r gyllideb staff cefnogi wedi ei danwario gan fod rhai o'r swyddi Diogelwch Tân Cymunedol ychwanegol â oedd i'w hariannu o arbedion ar swyddi'r ALP heb eu llenwi. Mae hyn o ganlyniad i ymagwedd ofalus tuag ag reolaeth y gyllideb.

8 Mae'r tanwariant ar ddiffoddwyr llawn amser yn eithaf rhesymol ar £124,000 yn erbyn cyllideb o £14miliwn. Mae'r tanwariant yn rhannol oherwydd arbedion yn erbyn y gyllideb ar gyfer y taliadau cynllun datblygu proffesiynol parhaol (CPD) oherwydd y nifer isel a fanteisiodd ar y cynllun yn y dechrau.

9 Mae'r gost ychwanegol o dan Adeiladau yn bennaf oherwydd ymarfer cyfrifyddu ar gyfrif masnachu Gorsaf Dân gymunedol y Rhyl sy'n cael ei osod yn y refeniw ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r diffyg ar y cyfrif wedi cynyddu o £18k o gymharu â llynedd oherwydd cynnydd mewn costau staff yn dilyn y gwerthusiad swyddi ac yr angen am staff ychwanegol ar gyfer y Dderbynfa yn y cyfleuster.. Fodd bynnag, mae'r staff ychwanegol yn gwneud peth gwaith gweinyddol i adrannau eraill o'r Gwasanaeth fel Diogelwch Tân Cymunedol.

10 Mae'r tanwariant ar Drafnidiaeth yn bennaf oherwydd fod y cynnydd yn y gyfradd gyfnewid rhyngwladol yn cynyddu costau'r cydrannau.

11 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, prif faes y gorwariant yw Offer Gweithredol oherwydd gostyngiad mewn lefelau stoc lle mae cost y stoc yn cael ei gostio i'r refeniw. Mae'r tanwariant at gostau Cyfathrebu a Chyfrifiaduron oherwydd oediad i Ran 2 o'r gwaith datblygu sydd wedi achosi arbedion yn y flwyddyn gyfredol.

12 Mae'r tanwariant ar ffioedd Archwilio yn ganlyniad i fantoli ffioedd y flwyddyn gyfredol yn erbyn croniad y flwyddyn flaenorol a oedd wedi ei oramcangyfrif gan arwain at gostau is yn y flwyddyn ariannol yma.

13 O dan Asiantaeth, mae cost glanhau a chynnal a chadw wedi codi oherwydd chwyddiant.

14 Mae costau rheoli cyfleusterau wedi cynyddu oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen i sicrhau fod yr holl ragosodiadau yn cwrdd â gofynion rheoli cynyddol. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei fantoli gan yr incwm a wnaed o ffioedd cyfalaf o ganlyniad i waith a wnaed gan yr adran ar brosiectau cyfalaf ac ail-negydu rhenti y cyd-safleoedd.

15 Nid yw'r incwm amcangyfrifedig gan log wedi ei gyflawni oherwydd y cyfraddau llog isel. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei wrthbwyso gan arbedion ar Ariannu Cyfalaf oherwydd ail-raglennu'r rhaglen gyfalaf yn 2009-10; arbedion ar daliadau llog drwy newid benthyciadau o sefydlog i newidiol; a thrwy fenthyca tu allan i'r PWLB. Y disgownt o £34k yw'r fantolen sydd ar ôl o'r arian a dderbyniwyd o fenthyciadau gafodd eu hail-raglennu yn 2009 yn unol â gweithdrefnau cyfrifol cywir.

16 Mae incwm Cynllunio Brys yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau arbennig. Mae hyn wedi gostwng oherwydd y newidiadau o fewn ariannu'r rhaglen Dimensiynau Newydd.

17 Mae'r incwm am Alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau mae'r Awdurdod yn codi anfonebau ar eu cyfer.

18 Cafwyd gostyngiad yn yr incwm enillwyd o gyrsiau hyfforddi o'r tu allan, diogelwch tân masnachol yn benodol. Cymerwyd y penderfyniad i ddiweddu'r gwasanaeth hwn achos penderfynwyd byddai cyflwyno neges diogelwch tân cymunedol i'r gymuned fusnes yn gyffredinol yn ddefnydd gwell o adnoddau.

19 Mewn termau cyffredinol, mae cyllideb eleni wedi cael ei rheoli'n ofalus gyda'r mwyafrif o'r tanwariant wedi ei adrodd yn flaenorol. Bydd y tanwariant yn cael ei osod i'r neilltu mewn cronfa gyffredinol fydd yn darparu peth sicrwydd bydd cronfa ar gael i helpu yn y blynyddoedd i ddod ac yn golygu gall yr Awdurdod gymryd o'r arian yma yn hytrach na gofyn am ardollau atodol.

## Cronfeydd wrth Gefn

20 Dyma'r ail flwyddyn i'r Awdurdod allu dal cronfeydd wrth gefn oherwydd newidiadau deddfwriaethol. Mae Cronfa wrth Gefn yn cael ei diffinio fel gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i osod adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Roedd gan yr Awdurdod £418k mewn cronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2010 ac oherwydd rheoli cyllideb effeithiol, heb orfod defnyddio'r gronfa wrth gefn i ariannu gwariant mewn blwyddyn.

21 Mae'n beth doeth i'r Awdurdod adeiladu Cronfa wrth Gefn Gyffredinol ac fe ragwelir mai ar gyfer y meysydd canlynol y defnyddir y gronfa:-

- unrhyw gostau trawsnewid sy'n rhan o'r Adolygiad i Wasanaethau Swyddogion;
- i fantoli unrhyw gynyddiadau tanwydd nad cyllidwyd ar ei gyfer;
- i dalu am unrhyw rwymedigaethau amodol a all godi; ac
- i dalu costau unrhyw ymddeoliadau cynnar ar sail effeithlonrwydd.

22 Gyda throsglwyddiad y tanwariant ar gyfer 2010-11, mantolen y gronfa wrth gefn fydd £1.045m. Nid yw'r fantolen yn un sylweddol wrth gymharu gyda chronfeydd yr Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig eraill.

## Darpariaethau

23 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw Darpariaethau drwy'r amser, ac mae darpariaeth yn cael ei ddiffinio fel 'arian sy'n cael ei osod i'r neilltu pan fo gan yr Awdurdod rwymedigaeth gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu adeiladol) ac mae'n debyg bydd setliad yn cael ei wneud rhywbryd yn y dyfodol'. Mae gan yr Awdurdod ddwy Ddarpariaeth ar hyn o bryd, sy'n cael eu trafod isod.

24 Mae'r Ddarpariaeth Pensiwn yn cael ei chadw gan yr Awdurdod ar gyfer taliadau sy'n cael eu gwneud i'r gronfa pensiynau ar gyfer ymddeoliadau oherwydd salwch. Ymgymerwyd ag adolygiad i'r ddarpariaeth ac fe wnaed amcangyfrif o'r gofynion yn y dyfodol. Amcangyfrifwyd bydd y balans ar y ddarpariaeth yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yma.

25 Amcangyfrifir bydd setliad ar yr ôl daliadau i ddiffoddwyr tân rhan amser yn cael ei wneud yn 2011-12. Mae'r balans ar y ddarpariaeth yn ddigonol i gwrdd â'r costau disgwyliedig.

## Cynlluniau sy'n cael eu Hariannu gan Grantiau

26 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian ar gyfer nifer o gynlluniau, gan y Cynulliad yn bennaf; mae cyfanswm yr arian a dderbyniwyd fwy na £1.7m. Bydd Aelodau'n ymwybodol o nifer o'r cynlluniau yma a'r manteision i'r gymuned o'u gweithredu. Y cynlluniau mwyaf sy'n cael eu hariannu gan grant yw'r Ffenics, Ymyraethau, Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol a Firelink. Mae rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgaredd Cyfalaf

27 Gosodwyd y gyllideb cyfalaf wreiddiol ym mis Rhagfyr 2009 ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd a threigl o'r blynyddoedd blaenorol. Fel yr adroddwyd i Aelodau o'r blaen, roedd nifer o gynlluniau wedi eu dal 'nol er mwyn cael digon o arian ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam. Roedd oediadau i gychwyn prosiect Wrecsam yn golygu fod gwariant yn llai nag amcangyfrifwyd. Cytunodd Aelodau, yn ystod y flwyddyn, i gynyddu'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig o £500k er mwyn

cwblhau gwaith oedd yn aros. Yn wreiddiol, roedd prosiect Llangefni fod i'w gwblhau yn 2009-10 ond oherwydd oediadau annisgwyl, cwblhawyd y prosiect yn 2010-11. Pan osodwyd y gyllideb, rhagwelwyd byddai'r gwariant wedi syrthio i'r flwyddyn ariannol flaenorol.

28 Roedd y rhaglen i amnewid y Tendrau Dŵr wedi dioddef oediadau ond mae'r rhaglen wedi cychwyn dal i fyny a disgwylir cyflwyno rhai cerbydau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Y gwariant a godwyd yn 2010-11 yw'r taliadau bob yn gam a wnaed i'r cyflenwr sy'n cael eu talu wedi cwblhau lefelau arbennig o adeiladu'r cerbyd.

29 Daethpwyd â'r rhaglen i amnewid y wisg PPE ymlaen i 2010-11 er mwyn gallu cyd-brynu gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

30 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2011 er mwyn adolygu'r cynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Doedd gan y Pwyllgor ddim sylwadau penodol i'w gwneud ac ni chanfuwyd unrhyw risg sylweddol yn yr adroddiad. O ganlyniad mae'r Pwyllgor Archwilio yn argymell fod y tanwariant o £626,741 yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa wrth Gefn Cyffredinol i ddelio â'r materion a amlinellwyd ym mharagraff 21.

## ARGYMHELLIAD

31 Fod Aelodau'n cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant i Gronfa wrth Gefn Cyffredinol.